



## BRIFF DYLUNIO COEDWIGAETH

### TROSOLWG & HANES CYFFREDINOL

Mae'r cynllun adnoddau coedwigaeth newydd i Cwmcarn yn ymestyn dros 1911Ha ac yn ymgorffori 4 uned cynllun coedwigoedd blaenorol: Cwmcarn, Sirhwyi/Cwm Felinfach, Machen a Llanbradach. Mae mwyafrif arwynebedd yr ystâd goed yn ymestyn ar hyd Dyffrynnoedd Sirhwyi Isaf ac Ebwy yn agos i gymunedau Rhisga, Crosskeys, Cwmcarn, Abercarn, Wattsville, Cwnfelinfach ac Ynysddu. Mae hefyd yn cynnwys blociau coediog llai a chymunedau Machen a Llanbradach yng ngwaelod Cwm Rhymni (Gweler y Map Lleoliad).

Mae daearyddiaeth gyffredinol yr ardal yn cynnwys ochrau dyffryn serth gyda phriddoedd da fel Priddoedd Brown a llwyfandiroedd ucheldirol mwy gwastad gyda phriddoedd salach gan gynnwys olion haearn. Mae uchder a natur agored yr ardal goedwigaeth hefyd yn amrywio o 100m uwchben lefel y môr ar lawr y dyffryn i 400m uwchben lefel y môr ar y llwyfandiroedd uchaf. Mae hyn hefyd i'w weld yn sgoriau DAMS sy'n mesur natur agored yr ardal, gan fod y rhan fwyaf o'r goedwig dan 15 a dim ond wynebau'r llwyfandiroedd sy'n uwch na hyn.

Mae cyfran fawr (53%) o'r ardal goedwigaeth yn Blanhigfeydd ar Safleoedd Coetir Hynafol ac wedi bod yn goediog ers yr 1800au. Plannwyd cynyddau conwydd gyntaf yn rhannau eraill o'r ardal goedwigaeth gan y Comisiwn Coedwigaeth yn yr 1930au gyda phlannu pellach ar ôl yr Ail Ryfel Byd o'r 1960au ymlaen. Llarwydd a phinwydd yw'r coed hyn yn bennaf ar y llethrau a'r wynebau isaf, gyda chyfran is o byrwydd ar y llethrau uchaf. Mae rhai o'r clystyrau hyn yn cynnwys conwydd aeddfed a chadarn. Mae cyfran y coed llydanddail yn uwch na'r cyfartaledd ac yn croesdorri'n amlwg mewn Planhigfeydd ar Safleoedd Coetir Hynafol, er bod y rhain yn bennaf yn goed llydanddail sydd wedi mewnwthio neu sy'n weddill ac wedi'u cymysgu'n agos gyda chonwydd. Lle mae gweithrediadau cwmpo wedi digwydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r coed llydanddail yn parhau i aildyfu.

Lluniwyd y Cynlluniau Dylunio Coedwigaeth cymeradwy blaenorol sy'n berthnasol i'r ardal cynllun adnoddau newydd ar ddechrau'r 2000au ac mae'n bryd eu hadnewyddu nawr. Mae llawer o'r gwaith rheoli gaiff ei ddisgrifio yn y cynlluniau hynny yn canolbwyntio ar ddefnyddio Systemau Coedamaeth Bach eu Heffaith (LISS) i reoli Planhigfeydd ar Safleoedd Coetir Hynafol (PAWS) sy'n cynnwys cyfran uchel o gnyddau llarwydd. Mae'n rhaid gwaredu'r llarwydd hwn nawr oherwydd y gofyniad cyfreithiol i dorri cynyddau wedi'u heintio â *Phytophthora ramorum* yn unol â Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer

Rheoli'r Clefyd. Mae effaith y cwmpo hwn yn sylweddol ac yn ysgogi'r angen am gynllun newydd i adlewyrchu'r newidiadau mawr hyn. Roedd yr hen fap o rywogaethau i'r dyfodol yn dangos cynnydd dramatig hirdymor mewn coed llydanddail a lleihad mewn pyrwydd Sitka a llarwydd yn sgil y dynodiad PAWS. Erbyn hyn, defnyddir dull ail-stocio mwy pragmataidd. Bydd rhywogaethau i'r dyfodol yn cael eu diffinio yn ôl y math o goedwig ac yn cael eu dilysu yn erbyn Rhestr o Goetiroedd Hynafol 2011; bydd cyfarwyddyd PAWS Comisiwn Coedwigaeth Cymru ac arolwg PAWS gan Thomson Ecology hefyd yn llywio'r gwaith. Bydd y rhain yn ein helpu i flaenoriaethu ardaloedd ar gyfer adfer Coetiroedd Hynafol.

## AMCANION A BLAENORIAETHAU

Mae gan lawer o'r amcanion a'r blaenoriaethau isod nifer o fanteision, gan gynnwys rhai economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a gweithredol. Cyflwynir y briff gyda'r categorïau canlynol:

**Cwmpo yn sgil *Phytophthora* / Rhaglen Cytundebau Hirdymor** – Dros y 5 mlynedd nesaf, bydd oddeutu 853 Ha o goed yn cael eu torri mewn perthynas â llarwydd, sy'n cyfateb i 45% o'r ardal goedwigaeth, a hynny o ganlyniad i'r haint *Phytophthora ramorum*. Bydd 625Ha, sef 42% o ardal goedwigaeth Cwmcarn a 315Ha, sef 58% o'r blociau coedwig sydd ar ôl yn Sirhywi, Cwmfelinfach, Machen a Llanbradach yn cael eu torri.

Bydd y cwmpo yn digwydd fel rhan o gytundeb cynaeafu hirdymor. Bydd rhaglen waith y cwmpo yn hyblyg ei natur. Bydd y Cynllun Adnoddau Coedwigaeth hwn yn ceisio dilysu ar lawr gwlad wrth gynhyrchu cynrychioliad cywir o'r ardaloedd lle mae torri i ddigwydd, gan ystyried amcanion y briff a lleihau effeithiau gweithrediad cynaeafu mor eang lle bynnag bo hynny'n bosibl. Fel rheol, byddai'r gyfradd gwmpo hon yn cael ei hystyried yn anghynladwy, ond mae'r gofyniad cyfreithiol i gwblhau'r holl gwmpo o fewn amserlen a roddwyd yn cael blaenoriaeth dros hyn. Bydd yr effeithiau yn ddramatig gan effeithio ar y canlynol am amser maith:

### Effeithiau ar y Dirwedd

Mae'r ardal sy'n destun y cynllun adnoddau coedwigaeth, sef Ebwy Isaf, Sirhywi a Rhymni yn hynod o weladwy yn y dirwedd a bydd llwyrgwmpo ar raddfa mor eang yn cael effaith weledol ar y cymunedau lleol. Er mwyn lleihau effaith cwmpo mor eang, byddwn yn gwneud y canlynol:

- Bydd asesiad o effaith weledol y cwmpo yn cael ei gynnal er mwyn lleihau'r effeithiau ar y dirwedd
- Bydd cyfleoedd ar gyfer torri clystyrau *Phytophthora* fesul cam yn cael eu harchwilio.

### Effeithiau ar Hamdden

Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd hamdden yn ardal goedwigaeth Cwmcarn, gyda'r ganolfan ymwelwyr/safle gwerysyla, beicio mynydd lawr brynïau, llwybr newydd beicio mynydd Cognation, a Ffordd y Goedwig Cwmcarn sy'n enwog drwy Gymru. Bydd effeithiau gweithrediadau cwmpo ar raddfa mor eang yn effeithio'n fawr ar hamdden, nid yn unig yn y byrdymor yn sgil y gweithrediadau cwmpo, ond yn yr hirdymor hefyd, wrth i'r gorchudd coed ddiflannu. Mae'r goedwig yn gefndir i'r holl weithgareddau hamdden sy'n digwydd yn y goedwig, gan ychwanegu at y profiad cyffredinol i ymwelwyr.

Ffordd y Goedwig: Yn ddiweddar, cynhaliwyd astudiaeth gan CNC ar brofiad ymwelwyr o 'Ffordd y Goedwig' (gwnaethpwyd hyn gan y Rheolwr Hamdden a Mynediad: Roz Owen), a cheir crynodeb isod:

- Mae coedwig Cwmcarn wedi'i lleoli mewn ardal sy'n cynnwys 114 allan o'r 190 ward mwyaf difreintiedig yng Nghymru.
- Mae 35% o boblogaeth Cymru yn byw o fewn y dalgylch
- Mae'r ganran uchaf o grwpiau lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru yn byw yn y dalgylch
- Mae ymwelwyr i ffordd y goedwig yn rhoi mwy o werth ar y goedwig ei hun a'r amrywiaeth o goed sydd yno nag y mae ymwelwyr cyffredinol
- Mae ymwelwyr i ffordd y goedwig yn aros yn hirach ar y safle; maent yn gyffredinol yn iau ac yn llawer mwy tebygol o fod â phlant gyda hwy nag ymwelwyr i safleoedd coedwigaeth eraill
- Mae amcanion hamdden ac adfywio Llywodraeth Cymru yn anelu at gael mwy o bobl, yn enwedig pobl ifanc a theuluoedd, i ymgymryd â gweithgareddau hamdden awyr agored yn fwy aml mewn mannau sy'n agos i'w cartrefi a'u mannau gwaith

Crynodeb o'u profiad tra'n ymweld â ffordd y goedwig:

- Roedd 91% o ymwelwyr i ffordd y goedwig o'r farn bod eu hymweliad yn dda/ardderchog
- Roedd 62% o'r farn mai'r dirwedd, y golygfeydd a'r coed oedd y prif atyniad
- Roedd 27% o'r farn mai'r heddwch, y llonyddwch a'r cyfle i ymlacio oedd y prif atyniad

Yn anffodus, bydd gweithrediadau cwmpo yn cael effaith niweidiol ar y ddau. Ond yr effaith fwyaf niweidiol fydd y cyfyngiadau gweithrediadol/lechyd a Diogelwch, ac mae'r rhain yn golygu bod ffordd y goedwig wedi cau ers Hydref 2014. Bydd angen cryn fuddsoddiad os am ail-agor y ffordd yn y dyfodol er mwyn adfer y ffordd a diweddarau cyfleusterau. Bydd angen cymharu hyn gyda'r profiad posibl i ymwelwyr o strwythur newydd y goedwig yn y dyfodol ar ôl cwmpo ac ail-stocio'r clystyrau *Phytophthora*.

Cyfleusterau Hamdden Eraill – Bydd y Ganolfan Ymwelwyr yn parhau i fod ar agor ac mae Cyngor Caerffili yn edrych ar ffyrdd newydd i mewn i'r goedwig o'r ganolfan ymwelwyr. Bydd Cognation, sef y llwybr beicio newydd yn parhau i fod ar agor cyhyd ag y bydd modd tra bod gweithrediadau cwmpo'n digwydd mewn rhannau eraill o'r goedwig gan gynnwys ochr 'Ffordd y Goedwig'/Medart. Bydd hyblygrwydd yn y rhaglen gwmpo a chyfathrebu da gydag ymwelwyr o fudd os am sicrhau fod modd i ymwelwyr barhau i ddod i'r goedwig yn ystod y pum mlynedd nesaf.

Yn gyffredinol, bydd y Cynllun Adnoddau Coedwig yn ceisio lleihau'r effaith ar brofiad ymwelwyr yn yr hirdymor drwy greu strwythur newydd i'r goedwig fel bod gweithgareddau hamdden yn gallu digwydd yno. Gwneir hyn yn bennaf drwy sicrhau amrywiaeth o ran rhywogaethau ac amrywiaeth o dechnegau rheoli coedamaethu drwy'r goedwig sydd ar ôl.

### **Rheoli Coedwigaeth a Choedamaeth i'r Dyfodol**

Yn gyffredinol, bydd effaith hirdymor y gwaith eang o dorri cnydau llarwydd wedi'u heintio ar reoli coedwigaeth yn arwain at y canlynol:

- Torri llai o glystyrau o faint, nifer a chyfaint pren.

- Cael gwared â'r cnydau llarwydd sydd ar ôl a chnydau sydd wedi'u chwythu gan y gwynt hyd at ffiniau'r fferm wynt.
- Cadw cnydau a oedd efallai dan ystyriaeth i gael eu torri ynghynt pe na bai *P. ramorum* wedi heintio'r cnydau llarwydd cyfagos.
- Cynnydd yng ngwaith teneuo cnydau mwy ymylol i helpu cynnal gorchudd coedwig.

Fel y nodwyd uchod, bydd cael gwared â llarwydd yn cael effeithiau ar gynllun rheoli hirdymor y goedwig. Un ffordd fawr o wneud iawn am yr holl gwympto yn y blynyddoedd sydd i ddod yw drwy reoli'r cnydau sydd ar ôl gyda LISS/CCF lle bynnag bod amodau fel priddoedd, llethrau a pha mor agored ydynt yn caniatáu hynny. Bydd y math o hwn o reoli yn ddibynnol ar arferion coedamaeth da ac ar deneuo cnydau presennol yn brydlon. Mae hyn hefyd yn bwysig wrth reoli Safleoedd Coetiroedd Hynafol. Mae cynllun teneuo i'r goedwig yn hanfodol i gyd-fynd ag unrhyw reoli yn y dyfodol a bydd y cynllun hwn yn ffurfio rhan o'r cynigion yn y Briff Dylunio Coedwigaeth.

Bydd ardaloedd pinwydd yn cael eu hasesu i weld os ydynt yn addas i'w cadw i'r hirdymor neu'n addas ar gyfer gwarchodfeydd natur lle mae manteision lu o ran hamdden a chadwraeth. Mae teneuo pinwydd lle bo hynny'n bosibl yn hanfodol i helpu rhwystro/lleihau haint Malltod Nodwyddau Bandiau Coch ac i wella cyflwr hirdymor y cnydau. Mewn Planhigfeydd ar Safleoedd Coetiroedd Hynafol, bydd teneuo pinwydd yn hanfodol i ysgogi adfywiad coed llydanddail yn yr hirdymor.

**Safleoedd Coetiroedd Hynafol** – Mae'r rhain yn elfen sylweddol o'r ardal goedwigaeth, sef 53% (1017Ha). Roedd y trefniadau rheoli blaenorol ar ffurf trawsnewid ac adfer Planhigfeydd ar Safleoedd Coetiroedd Hynafol (PAWS) yn raddol trwy deneuo a gweithrediadau CCF. Fodd bynnag, bydd y gweithrediadau torri llarwydd yn sgil *Phytophthora* yn golygu bod cyfran uchel (oddeutu 50%) o'r PAWS yn cael ei thorri i lawr mewn amser byr iawn. Bydd y cnydau sydd ar ôl ym Mhlanhigfeydd ar Safleoedd Coetiroedd Hynafol yn cael eu rheoli drwy Systemau Coedamaeth Bach eu Heffaith (LISS) lle bo hynny'n weithredol bosibl.

Mae cael ardaloedd mor eang o Safleoedd Coetiroedd Hynafol i'w hadfer o bosibl mewn amser mor fyr yn golygu bod yn rhaid blaenoriaethu ardaloedd. Gwnaethpwyd hyn drwy ystyried yr holl wybodaeth berthnasol am safleoedd gan gynnwys cyfarwyddyd Coetiroedd Hynafol, Data Arolwg Gwaelodlin Coetiroedd Hynafol a data blaenoriaethu Coetiroedd Hynafol. Lle bod potensial uchel ar gyfer adfer yn bodoli, bydd o leiaf 50% yn goed llydanddail brodorol os yn rhannol adfer, a bydd 80% yn goed llydanddail os ydynt yn adfer yn llwyr yn unol â Chyfarwyddyd Coetiroedd Hynafol CCC 2013. Nid yw hyn yn gwrthod y syniad o blannu rhywfaint o goed conwydd yn y manau hyn yn y dyfodol. Mae'n bosibl y bydd manau gyda chyfran uchel o goed conwydd yn cael eu hystyried yn fannau blaenoriaeth isel ar gyfer eu hadfer fel cnydau meithrin lle ceir mynediad derbyniol i'w teneuo, neu'n fannau ar gyfer eu trosi i goed llydanddail dros amser neu yn y cylchdro nesaf. Bydd rhywogaethau ymledol fel Cegid y Gorllewin yn cael eu gwaredu trwy gael eu llwyrgwympto er mwyn lleihau'r posibilrwydd o hadau'n gwreiddio ar safleoedd PAWS. Mae sicrhau cysylltedd gyda choed llydanddail a choetiroedd brodorol tu allan i ffiniau'r ystâd yn hanfodol os am greu strwythur coetir brodorol parhaol.

**Rhywogaethau a Chynefinoedd y Goedwig i'r Dyfodol** – Bydd cwympto cnydau llarwydd ar raddfa eang yn arwain at gyfle i sicrhau mwy o amrywiaeth o ran cnydau conwydd a chnydau llydanddail cynhyrchiol yn yr hirdymor.

Bydd mwy o gysylltedd llydanddail yn cael ei greu gyda Safleoedd Coetiroedd Hynafol tu mewn a thu allan yr ardal goedwigaeth o ganlyniad i weithredu'r polisi PAWS. Yn gyffredinol, bydd sicrhau amrywiad o ran rhywogaethau yn un o brif egwyddorion rhywogaethau'r dyfodol a rhaglenni ail-stocio yn unol â 'A Guide for increasing tree species diversity in Wales' 2010 CCC. Byddwn yn osgoi ungyddau ar raddfa eang. Bydd rhywogaethau addas, cymysgedd o darddleoedd a chnydau meithrin yn cael eu hannog. Ni fydd llarwydd ac onn yn cael eu hail-blannu oherwydd *Phytophthora ramorum* a *Chalara fraxinaea*. Gadewir ardaloedd sydd wedi'u heffeithio gan dân fel 'Cwm Felinfach' ac ardaloedd gwaredu sbwriel yng nghoedwig Machen, i ailfywio'n naturiol yn fannau coediog naturiol gyda 20% o orchudd coed. Bydd gofod agored ar raddfa lai ar lefel clwstwr micro-ddyluniad hefyd yn chwarae rôl bwysig yn nhermau hamdden a bioamrywiaeth. Fodd bynnag, bydd gofod agored hefyd yn cael ei adnabod ar raddfa'r Briff Dylunio Coedwigaeth yn enwedig i adfer gweundiroedd/glaswelltiroedd, Henebion Cofrestredig, ffyrddfreintiau llinellau pŵer, cynlluniau gwella'r dirwedd ac i agor golygfannau pwysig yn y goedwig.

### **Ystyriaethau Cadwraethol a Threftadaeth Eraill**

- Gweilch Marthin Atodlen 1 yn amlwg ar Graig Fapi. Mae'n rhaid ystyried yr adar hyn wrth gynllunio gweithrediadau cwmpo.
- Yr ardal i'r gogledd o Gwmcarn i'w chwmpo ym mlwyddyn 5 o'r Rhaglen Cytundebau Hirdymor gan fod arian ar gyfer y llwybr newydd yn ddibynnol ar gadw'r ardal yn agored hyd ddiwedd blwyddyn ariannol 2017.
- Ystyried comin 'Mynydd Maen' a chysylltiadau gyda chynefinoedd tu allan i weundiroedd
- Mae yna X Safle o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur (SINC) yn ardal y cynllun adnoddau newydd
- Nid oes unrhyw safleoedd dynodedig (Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, Ardaloedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac Ardaloedd Gwarchod Arbennig neu safleoedd RAMSAR), ardaloedd adfer mawn neu ddalgylchoedd sy'n sensitif i asid o fewn ardal y cynllun adnoddau newydd, felly nid oes raid cynnal Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd.

### **Dŵr**

Nid yw'r dalgylchoedd dŵr sy'n gysylltiedig â'r ardal cynllun adnoddau hwn yn sensitif i asid ac felly nid oes angen asesiad asideiddio.

### **Mynediad a Chludo**

Bydd opsiynau newydd o ran ffyrdd yn cael eu harchwilio yn y Medart a Cwm Felinfach ar gyfer cludo. Bydd llwybrau torri newydd hefyd yn rhan o Sirhywi a rhan o Machen.

### **Ymgynghoriad Cyhoeddus**

Bydd y tîm lleol yn darparu gwybodaeth gyhoeddus i gymunedau lleol o ran trefniadau cau 'Ffordd y Goedwig' a'r 'Rhaglen Gwaredu Llarwydd'.